# <u>Prifysgol Bangor - Safonau Cadwraeth Dŵr</u>

## 1. Rhagarweiniad

Amcanion y Safonau Cadwraeth Dŵr (Y Safonau) yw hyrwyddo a gweithredu arferion rheoli dŵr cynaliadwy sy'n lleihau defnydd dŵr ac yn annog defnydd cyfrifol ar ddŵr ar gampws y Brifysgol. Bydd y Safonau hefyd yn helpu'r Brifysgol gefnogi ei strategaethau di-garbon net hithau a rhai Llywodraeth Cymru a mentrau dŵr cynaliadwy lleol, cenedlaethol a byd-eang.

Mae dŵr a rheoli dŵr cynaliadwy'n allweddol i ddatblygu cynaliadwy ac mae'n hanfodol i ddatblygiad economaidd-gymdeithasol, ecosystemau iach ac i oroesiad y ddynolryw. Mae'n hanfodol o ran lleihau baich afiechydon byd-eang a gwella iechyd, lles a chynhyrchiant poblogaethau. Mae dŵr hefyd yn allweddol o ran addasu i'r newid yn yr hinsawdd, ac mae'n gyswllt hanfodol rhwng system yr hinsawdd, cymdeithas ddynol a'r amgylchedd.[1].

## 2. Swyddogaeth y Safonau Cadwraeth Dŵr

Bydd rheoli dŵr cynaliadwy drwy'r Safonau'n fodd i alluogi'r Brifysgol fel a ganlyn:

- nodi ei defnydd o ddŵr a chyfleoedd i leihau gwastraff a'r effaith ar systemau carthffosiaeth a dŵr
- cynllunio i leihau'r galw am ddŵr mewn gwaith adeiladu, twf sefydliadol ac adnewyddu adeiladau
- creu a gweithredu canllawiau dylunio dŵr cynaliadwy i adeiladau newydd a gwaith adnewyddu ar adeiladau a gwaith ymatebol
- creu a sicrhau cyllideb lleihau dŵr i gyflawni'r Safonau
- parhau i ddarparu a gwella darpariaeth dŵr yfed am ddim i'r staff a'r myfyrwyr
- helpu diogelu cefnau deuddŵr lleol ac ecosystemau a bioamrywiaeth daearol a morol
- helpu diogelu iechyd y cyhoedd a sicrhau safonau glanweithdra ac arllwysiad
- hyrwyddo mwy o ddatblygu economaidd a sicrwydd o ran adnoddau dŵr
- lleihau effaith y Brifysgol ar y cyflenwad dŵr a seilwaith trin dŵr
- atal llygredd
- mesur, asesu a hyrwyddo defnydd ac ailddefnydd ymwybodol ar ddŵr ar y campws, ac yn y gymuned ehangach
- lleihau faint o ddŵr a waredir i'w drin
- ymchwilio i ailddefnydd dŵr a gwneud hynny hyd yr eithaf
- nodi gollyngiadau yn gyflym ac yn effeithlon
- hyrwyddo, addysgu a hysbysu staff, myfyrwyr ac eraill am werth diogelu'r cyflenwad dŵr cyfyngedig i genedlaethau'r dyfodol

[1] Addasiad o ddatganiad y Cenhedloedd Unedig ynglŷn â dŵr a datblygu cynaliadwy.

## 3. Cyflawni'r Safonau Cadwraeth Dŵr

### a. Archwiliadau ac Asesiadau Dŵr

- Cynnal archwiliad dŵr a dadansoddiad o ddata a thueddiadau i bennu patrymau defnydd dŵr, llunio meincnod diffiniol, nodi meysydd lle mae'r defnydd mwyaf o ddŵr fesul m2, fesul person a fesul gweithgaredd, a nodi cyfleoedd posibl i reoli'r adnoddau dŵr yn well
- Gwerthuso seilwaith dŵr y Brifysgol, gan gynnwys ffynonellau dŵr, systemau dosbarthu, a chyfleusterau trin dŵr gwastraff (h.y. triniaethau pecyn lleol a thanciau septig), gan gynnwys y potensial i leihau'r effaith ar seilwaith y carthffosydd lleol
- Nodi gollyngiadau posibl a gwastraff dŵr

### b. Mesurau Cadwraeth Dŵr

- Ymchwilio i fanteision, a gweithredu lle bo'n rhesymol ymarferol, fesurau cadwraeth dŵr, lle na chawsant eu gosod o'r blaen, megis:
    - ôl-ffitio tapiau, pennau cawodydd, troethfeydd, a thoiledau gyda gosodiadau llif isel, mwy effeithlon neu ddi-ddŵr.
    - gosod tapiau a thoiledau â synwyryddion ynddynt i warchod rhag gwastraffu dŵr.
    - hyrwyddo arferion arbed dŵr trwy ymgyrchoedd addysgol a rhaglenni ymwybyddiaeth.
    - annog defnydd dulliau tirlunio brodorol sy'n gallu goddef sychder i leihau defnydd dŵr yn yr awyr agored
    - gweithredu systemau hel dŵr glaw i gasglu ac ailddefnyddio dŵr glaw at ddibenion ac eithrio yfed.
    - cael gwared ar allfeydd na chaiff eu defnyddio'n aml, lleihau risg clefyd y lleng filwyr, a lleihau posibilrwydd gollyngiadau

### c. Canfod ac Atgyweirio Gollyngiadau

- Archwilio systemau dosbarthu dŵr y Brifysgol yn rheolaidd am ollyngiadau ac atgyweirio unrhyw faterion a nodir yn brydlon
- Monitro data ynghylch defnydd dŵr i fynd ati i nodi gollyngiadau a'u trwsio
- Darganfod ac atgyweirio gollyngiadau dŵr yn gyflym, gan nodi mesurau lliniaru posibl rhag colli dŵr yn y dyfodol
- Addysgu'r staff a'r myfyrwyr ynglŷn â rhoi gwybod am ollyngiadau, tapiau a sestonau sy'n diferu, ac annog eu cyfranogiad gweithredol i geisio canfod gollyngiadau a rheoli dŵr

**d. Rheoli Ansawdd Dŵr**

- Cynnal rhaglen monitro ansawdd dŵr sy'n sicrhau diogelwch ac ansawdd dŵr yfed ar y campws
- Profi samplau dŵr yn rheolaidd o wahanol ffynonellau, gan gynnwys tapiau a ffynhonnau dŵr, am halogyddion
- Datblygu cynllun ymateb brys i ddigwyddiadau ansawdd dŵr a'i gyfleu i randdeiliaid perthnasol

**e. Rheoli Dŵr Storm**

- Gwerthuso'r trefniadau cyfredol i reoli dŵr storm a mynd ati lle bo angen i ddatblygu strategaethau neu gynlluniau i reoli dŵr ffo stormydd yn well, a lleihau perygl erydu a llygredd
- Ymchwilio i'r posibilrwydd o osod pafin athraidd a gerddi glaw i hyrwyddo ymdreiddiad naturiol a hidlo dŵr storm, a'u hôl-ffitio a'u gosod ymhob datblygiad newydd

**f. Monitro, Gwerthuso ac Adrodd**

- Sefydlu system i fonitro a gwerthuso defnydd dŵr yn barhaus, mesurau cadwraeth, a'r cynnydd tuag at y nodau
- Tracio mesurau perfformiad allweddol yn rheolaidd, megis defnydd dŵr fesul $m^2$ o'r arwynebedd llawr a fesul CALl (staff a myfyrwyr)
- Llunio adroddiadau cyfnodol i gyfleu'r cynnydd, yr heriau a'r argymhellion i randdeiliaid y Brifysgol

**g. Ymwneud â'r Rhanddeiliaid**

- Meithrin cydweithrediad ac ymgysylltiad ymhlith staff a myfyrwyr y Brifysgol a'r gymuned ehangach i hyrwyddo cadwraeth dŵr
- Ysgogi gweithrediad y Safonau Cadwraeth Dŵr a darparu llwyfan i fewnbwn ac adborth gan randdeiliaid
- Cynnal gweithdai, seminarau, ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth i addysgu cymuned y campws am bwysigrwydd cadwraeth dŵr a mentrau rheoli dŵr y Brifysgol

**h. Gwelliant Parhaus**

- Adolygu a diweddaru'r Safonau Cadwraeth Dŵr yn rheolaidd ar sail anghenion newidiol, datblygiadau mewn technoleg a'r arferion gorau sy'n codi
- Chwilio am gyfleoedd i arloesi, ymchwil, a phartneriaethau i wella arferion rheoli dŵr ac ymdrechion cynaliadwyedd ymhellach

**4. Adolygu**

Caiff y Safonau Cadwraeth Dŵr eu hadolygu bob dwy flynedd gan y Brifysgol.

(Diwedd y ddogfen)

---

**Cymeradwywyd gan:**  **Dyddiad:** 18 Ebrill, 2024

Wayne Jones, Pennaeth Rheoli Ystadau

**Dyddiad adolygu:** Ebrill 2026